



LEFEL 3

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Dyluniad Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (lefel 3)

Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Dyluniad
Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (lefel 3)

Cynnwys	Rhif y dudalen
Cyflwyniad	2
Diben	3
Nodau ac amcanion	4
Cyd-destunau dysgu	4
Sgiliau wedi'u gwreiddio	5
Cynnwys a deilliannau dysgu	5
Strwythur cyffredinol	7
Asesu	8
Graddio	11

Cyflwyniad

Diben y ddogfen hon yw amlinellu Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer llunio cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (lefel 3). Mae nhw'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb, y deunyddiau asesu a'r canllawiau ar gyfer addysgu ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch gyfredol a fframwaith cysylltiedig Bagloriaeth Cymru yn dod i ben ar 31 Awst 2023. Bydd y cymhwyster newydd hwn yn disodli'r rhain a bydd yn dod i rym o fis Medi 2023.

Cafodd gofynion dylunio'r cymhwyster hwn eu datblygu gan Cymwysterau Cymru gyda chymorth llawer o randdeiliaid. Fe wnaethon ni ymgynghori ar ein cynllun arfaethedig ar gyfer y cymhwyster hwn yn hydref 2020. Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon yn adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw.

Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gafodd ei chynnal yn haf 2021, contractiodd Cymwysterau Cymru CBAC i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu'r cymhwyster newydd. Bydd y cymhwyster hwn yn cael ei gyfyngu i un ffurf yn unig am gyfnod o saith mlynedd o'r addysgu cyntaf ar 1 Medi 2023. Dim ond os yw'n bodloni'r holl ofynion sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon ynghyd â'r rhai sy'n cael eu nodi yn ein Hamodau Cydnabod Safonol, Amodau lefel cymhwyster ac unrhyw Ddogfennau Rheoleiddiol perthnasol eraill y bydd Cymwysterau Cymru yn cymeradwyo'r cymhwyster.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu roi sylw i'r canlynol:

- a) [Canllawiau i gyrff dyfarnu ar ddatblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg,](#)
- b) [Mynediad Teg drwy Ddylunio - Canllawiau i gyrff dyfarnu ar gynllunio cymwysterau cynhwysol o ansawdd uchel,](#)
- c) [Cynlluniau marcio ar gyfer cymwysterau sy'n seiliedig ar wybodaeth: Canllaw arfer da.](#)

I'r graddau bod unrhyw anghysondeb rhwng gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon ac un o ofynion ein Hamodau Cydnabod Safonol, Amod lefel cymhwyster ac unrhyw Ddogfen Reoleiddiol arall, bydd y gofynion yn y ddogfen hon yn cael blaenoriaeth.

Mae'r Rhesymeg y cyfeirir ati yn y ddogfen hon yn ofynnol gan y corff dyfarnu ar adeg cyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo gan Cymwysterau Cymru.

1. Diben

Mae Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol i baratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar. Prif ffocws y cymhwyster yw datblygu sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesi; Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol. Dyma'r pedwar sgil y cyfeirir atynt yn y Cwricwlwm newydd i Gymru fel y Sgiliau Cyfannol, gyda dilyniant priodol ar gyfer dysgwyr lefel 3.

Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio i apelio at ystod eang o ddysgwyr 16-19 oed, sy'n astudio ystod eang o bynciau fel rhan o'u llwybrau dysgu unigol. Yn ganolog i'r cymhwyster mae'r pwysigrwydd y mae'n ei roi ar ganiatáu i ddysgwyr arfer ymreolaeth a dewis personol wrth ddewis meysydd astudio sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n berthnasol i'w llwybrau dilyniant yn y dyfodol. Er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu gydol oes, cyflogaeth a dinasyddiaeth weithgar, mae cynllun y cymhwyster yn darparu profiadau dysgu gwirioneddol, dilys ac mae pwyslais ar ddysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth ac ar ddatblygu dysgu annibynnol.

I gefnogi datblygiad sgiliau, mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio i gynnwys cyd-destunau dysgu wedi'u diffinio'n fras sy'n berthnasol ac yn gyfredol. Ni chaiff dysgwyr eu hasesu'n uniongyrchol ar y cyd-destunau hyn na'u gwybodaeth ohonynt; yn hytrach defnyddir y cyd-destunau i ddarparu fframweithiau deniadol a hygyrch sy'n helpu i fframio datblygiad ac asesiad sgiliau. Mae'r cymhwyster hefyd yn darparu cyfleoedd wedi'u gwreiddio i ddysgwyr ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd a llythrennedd digidol, ond nid yw'n asesu'r rhain yn uniongyrchol.

- 1.1. Mae Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn gymhwyster lefel 3 a gymerir yn bennaf gan ddysgwyr 16-19 oed sy'n dilyn rhaglenni astudio lefel 3, fel Safon Uwch. Mae'r cymhwyster yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau i gefnogi llwybrau dilyniant.
- 1.2. Diben y cymhwyster yw galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau penodol(gweler 2.1) a'u rhoi ar waith mewn cyd-destunau perthnasol i baratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar.

GR1 – Gofyniad y Rhesymerg: *wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu rhesymeg o sut mae'r fanyleb yn cyflawni diben y cymhwyster.*

2. Nodau ac amcanion

- 2.1. Rhaid mai nod y cymhwyster yw datblygu sgiliau Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesi; Cynllunio a Threfnu ac Effeithiolrwydd Personol. Dyma'r pedwar sgil y cyfeirir atynt yn y Cwricwlwm newydd i Gymru fel y Sgiliau Cyfannol.
- 2.2. Rhaid i'r cymhwyster hwn gael ei gynllunio i ganiatáu dilyniant o ddatblygiad y Sgiliau Cyfannol ar lefel 2.
- 2.3. Rhaid cefnogi dysgwyr i ddewis meysydd astudio sy'n ymwneud â'u diddordebau personol a'u llwybrau dysgu unigol i gyflawni'r nod o gefnogi dysgwyr i symud ymlaen i Addysg Uwch, prentisiaethau, hyfforddiant a chyflogaeth.

GR2 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb, rhaid i'r corff dyfarnu ddangos sut mae cynllun y cymhwyster yn cefnogi dilyniant o lefel 2 i lefel 3 yn natblygiad y Sgiliau Cyfannol.

GR3 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb, rhaid i'r corff dyfarnu ddangos sut mae cynllun y cymhwyster yn rhoi hyblygrwydd i ddysgwyr ddewis meysydd astudio penodol sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol iddynt.

3. Cyd-destunau dysgu

- 3.1. Er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, rhaid i'r cymhwyster gael ei gynllunio i gynnwys cyd-destunau dysgu sydd wedi'u diffinio'n fras sy'n berthnasol ac yn gyfredol (gweler 6.2). Rhaid i'r cyd-destunau y mae dysgwyr yn datblygu eu sgiliau a'u rhoi ar waith ynddynt ganiatáu ffocws ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, fel y'u diffinnir yn agenda datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, a Nodau Llesiant Cymru, fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ceir rhagor o wybodaeth am y cyd-destunau dysgu hyn yn [Natblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig](#) a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Yr Hanfodion](#).
- 3.2. Ni ddylid asesu dysgwyr yn uniongyrchol ar y cyd-destunau hyn na'u gwybodaeth ohonynt; yn hytrach, rhaid defnyddio'r cyd-destunau i ddarparu cyfleoedd difyr a hygyrch ar gyfer datblygu ac asesu sgiliau.
- 3.3. Er mwyn cefnogi dysgwyr i baratoi ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar, rhaid i'r cymhwyster ddarparu profiadau dysgu

gwirioneddol, dilys sy'n berthnasol ac yn ystyrlon. Rhaid bod ffocws ar ddysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

- 3.4. Rhaid i'r cymhwyster alluogi dysgwyr i wneud dewisiadau personol wrth ddechrau themâu penodol i ymgysylltu â nhw o fewn y cyd-destunau a ddiffinnir yn fras a nodir yn 3.1.

4. Sgiliau wedi'u gwreiddio

- 4.1. Rhaid i'r cymhwyster hefyd ddarparu cyfleoedd wedi'u gwreiddio i ddysgwyr ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol, ond rhaid iddo beidio ag asesu'r rhain yn uniongyrchol:

Tabl 2: Cymhwyso sgiliau ym Magloriaeth Sgiliau Uwch Cymru

Cymhwyso sgiliau yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd	
Sgiliau a asesir Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau Creadigrwydd ac Arloesi Cynllunio a Threfnu Effeithiolrwydd Personol	Sgiliau wedi'u gwreiddio Llythrennedd Rhifedd Cymhwysedd Digidol
Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar roi'r sgiliau hyn ar waith.	Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau hyn, ond ni fyddant yn ddeilliannau dysgu penodol.

- 4.2. Rhaid i'r fanyleb a'r deunyddiau a gyflwynir egluro'r berthynas rhwng y sgiliau a asesir, y sgiliau wedi'u gwreiddio a'r cyd-destunau dysgu. Rhaid i'r corff dyfarnu gynnwys canllawiau digonol i ganolfannau i sicrhau bod disgygliadau ar gyfer addysgu ac asesu mewn perthynas â'r sgiliau a asesir, y sgiliau sydd wedi'u gwreiddio a'r cyd-destunau dysgu yn cael eu cyfleu'n glir.

GR4 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb a deunyddiau eraill i'w cymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio'n glir y berthynas rhwng y sgiliau a asesir, y sgiliau wedi'u gwreiddio a'r cyd-destunau dysgu yng nghynllun y fanyleb.

5. Cynnwys a deilliannau dysgu

- 5.1. Rhaid i'r corff dyfarnu ddatblygu cynnwys sy'n bodloni diben, nodau ac amcanion y cymhwyster fel y nodir uchod.

5.2. Rhaid i gynnwys y fanyleb alluogi dysgwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu canlynol:

Tabl 3: Deilliannau dysgu

Deilliannau dysgu	
Deilliant dysgu 1	<ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyso meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn ystod o gyd-destunau penodol
Deilliant dysgu 2	<ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyso creadigrwydd ac arloesedd mewn ystod o gyd-destunau penodol
Deilliant dysgu 3	<ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyso cynllunio a threfnu mewn ystod o gyd-destunau penodol
Deilliant dysgu 4	<ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyso effeithiolrwydd personol mewn ystod o gyd-destunau penodol

5.3. Rhaid i gynnwys y fanyleb gynnwys y sgiliau penodol isod, ond ni ddylai fod yn gyfyngedig iddynt:

Tabl 4: Ymhelaethu ar y Sgiliau Cyfannol

Deilliannau dysgu	Sgiliau Penodol
Cymhwyso meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn ystod o gyd-destunau penodol	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi a mynd i'r afael â phroblemau cymhleth ac anarferol gan ddefnyddio cwestiynau ystyrlon a thechnegau ymchwil â ffocws. • Gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth. • Dadansoddi materion a gwybodaeth allweddol a chymhleth. • Dethol, cyfosod a chyfeirio gwybodaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd. • Cynnig a chyfiawnhau datrysiadau.
Cymhwyso creadigrwydd ac arloesedd mewn ystod o gyd-destunau penodol	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchu syniadau yn annibynnol ac ar y cyd gan ddefnyddio ystod o wybodaeth a sgiliau. • Gwneud cysylltiadau ar draws profiad, gwybodaeth a sgiliau gwahanol. • Archwilio a chyfiawnhau ffyrdd eraill o weithredu a safbwyntiau amgen. • Rhannu a chyfnewid gwybodaeth a syniadau. • Cyfathrebu i wahanol gynulleidfaoedd at wahanol ddibenion gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a fformatau.
Cymhwyso cynllunio a threfnu	<ul style="list-style-type: none"> • Dewis sgiliau a dulliau/gweithdrefnau priodol i'w hamlinellu, eu cynllunio a'u trefnu.

mewn amrywiaeth o gyd-destunau penodol	<ul style="list-style-type: none"> • Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant er mwyn gosod nodau a gwneud penderfyniadau. • Monitro cynnydd a chanlyniadau, datblygu ac addasu i ddatblygiadau annisgwyl. • Rheoli adnoddau, gweithgareddau, amserlenni a risg.
Cymhwyso effeithiolrwydd personol mewn amrywiaeth o gyd-destunau penodol	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi, rheoli ac addasu eich ymddygiad a'ch perfformiad eich hun. • Gweithio'n annibynnol ac ar y cyd mewn gwahanol gyd-destunau. • Ystyried ac ymateb i werthoedd a barn pobl eraill, gan gynnwys wrth arwain. • Addasu ymddygiadau i wahanol rolau a chyd-destunau gan gynnwys ymateb i adborth a rhoi adborth i eraill. • Cydnabod a gwerthuso prosesau, technegau a chanlyniadau dysgu a gaiff eu cyflawni mewn perthynas â nodau, amcanion a meini prawf llwyddiant.

5.4. Rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu digon o ehangder a dyfnder o ran cynnwys i fodloni gofynion cymhwyster lefel 3.

5.5. Rhaid i gynnwys y pwnc ddarparu digon o fanylion i'r Sgiliau Cyfannol gael eu diffinio'n eang a'u cymhwyso a pheidio â bod yn gyfyngedig o ran cwmpas. Rhaid i gynnwys y pwnc fod yn ddigonol i gefnogi ymdriniaeth o'r sgiliau sy'n briodol i asesu pob cydran tra'n osgoi unrhyw ddyblygu diangen o ran y dysgu.

GR5 – Gofyniad y Rhesyemeg: *wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio'r rhesymau dros gynnwys unrhyw gynnwys ychwanegol nad yw wedi'i restru uchod.*

GR6 – Gofyniad y Rhesyemeg: *wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio sut mae'r cynnwys wedi'i integreiddio i bob cydran mewn ffyrdd perthnasol ac ystyrlon, tra'n osgoi ailadrodd diangen.*

6. Strwythur cyffredinol

6.1. Rhaid i Fagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch fod yn gyfanswm o 360 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH).

6.2. Rhaid i'r cymhwyster gynnwys tair cydran orfodol fel y dangosir yn nhabl 5:

Tabl 5: Cydrannau ym Magloriaeth Sgiliau Uwch Cymru

Cydrannau ym Magloriaeth Sgiliau Uwch Cymru	
Cydran 1: Prosiect Cymuned Fyd-eang	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos sut maent yn eu rhoi ar waith wrth ystyried materion byd-eang cymhleth a chyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol lleol (o leiaf 15 awr) i hyrwyddo dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.
Cydran 2: Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos sut maent yn eu rhoi ar waith wrth archwilio nodau cyrchfannau'r dyfodol ar gyfer bywyd, cyflogadwyedd a dinasyddiaeth mewn byd cynaliadwy ac yng Nghymru.
Cydran 3: Prosiect Unigol	Bydd dysgwyr yn datblygu'r Sgiliau Cyfannol ac yn arddangos sut maent yn eu rhoi ar waith wrth gynllunio, rheoli a chynnal prosiect ymchwil annibynnol (prosiect ysgrifenedig estynedig neu arteffact).

6.3. Rhaid i gydrannau'r cymhwyster gyfrannu at y cymhwyster cyffredinol fel y dangosir yn nhabl 6:

Tabl 6: Cyfraniad y cydrannau at radd gyffredinol y cymhwyster (pwysoliad)

Cydran	Cyfraniad at radd gyffredinol y cymhwyster (pwysoliad)
Cydran 1: Prosiect Cymuned Fyd-eang	25%
Cydran 2: Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol	25%
Cydran 3: Prosiect Unigol	50%

GR7 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio sut mae'r cynnwys ym mhob cydran unigol yn gymesur â chyfraniad pob cydran unigol at radd gyffredinol y cymhwyster (pwysoliad).

7. Asesu

7.1. Bydd y cymhwyster yn asesu gallu dysgwyr i roi'r Sgiliau Cyfannol ar waith yng nghyd-destun:

- **Prosiect Cymuned Fyd-eang**
- **Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol**
- **Prosiect Unigol**

- 7.2. Rhaid i'r Prosiect Cymuned Fyd-eang gael ei gynllunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer dinasyddiaeth weithgar wrth greu cysylltiadau rhwng materion lleol, cenedlaethol a byd-eang. Rhaid i'r gydran gynnwys gweithgaredd cyfranogiad Cymunedol o tua 15 awr.
- 7.3. Rhaid i Brosiect Cyrchfannau'r Dyfodol gwmpasu dealltwriaeth eang o'r ystod o ystyriaethau a all ddylanwadu ar ddewisiadau a dyheadau dysgwyr ynghylch eu cyrchfannau yn y dyfodol. Rhaid annog dysgwyr i ystyried y ffyrdd niferus y bydd eu penderfyniadau o ran cyrchfannau yn y dyfodol yn effeithio ar eu llesiant, yn ogystal â llesiant pobl eraill.
- 7.4. Rhaid i'r Prosiect Unigol ganiatáu i ddysgwyr gyflwyno naill ai prosiect ysgrifenedig estynedig neu arteffact. Rhaid i'r strwythur asesu fod yn ddigon eang i gefnogi'r asesiad o'r gwahanol fathau o dystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer pob opsiwn.
- 7.5. Yn ogystal ag asesu'r Sgiliau Cyfannol, rhaid i'r asesiad hefyd ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu, a'u rhoi ar waith lle bo'n berthnasol, y sgiliau wedi'u gwreiddio sef rhifedd, llythrennedd a llythrennedd digidol. Ni fydd y sgiliau hyn yn cael eu hasesu ond byddant yn galluogi dysgwyr i ddangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgil priodol wrth roi'r sgiliau cyfannol ar waith.
- 7.6. Rhaid i bob un o'r cydrannau gynnwys asesiad o bob un o'r pedwar Sgil Cyfannol.
- 7.7. Rhaid i'r cymhwyster gael ei gynllunio i ganiatáu sylw cytbwys priodol i bob un o'r Sgiliau Cyfannol, fel y cânt eu dangos yn nhabl 7:

Tabl 7: Cyfraniad y Sgiliau Cyfannol i'r cymhwyster

	Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Creadigrwydd ac Arloesedd	Cynllunio a Threfnu	Effeithiolrwydd Personol
Prosiect Cymuned Fyd-eang	√	√	√	√
Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol	√	√	√	√
Prosiect Unigol	√	√	√	√
Cyfanswm y Pwysoliad	20 - 30%	20 - 30%	20 - 30%	20 - 30%

- 7.8. Rhaid i'r corff dyfarnu ddyrannu'r Sgiliau Cyfannol i bob un o'r cydrannau mewn ffordd sy'n cefnogi asesiad dilys ac ystyrlon.
- 7.9. Rhaid cynllunio asesiad y cymhwyster i osgoi dyblygu diangen ar draws y cydrannau. Rhaid i'r pedwar Sgil Cyfannol gael eu diffinio'n fras a'u rhannu'n elfennau cyfansoddol (setiau o is-sgiliau) sy'n berthnasol i bob un o'r cydrannau. I fod yn glir, er y bydd y Sgiliau Cyfannol yn cael eu cymhwyso'n gyfannol, rhaid i'r tasgau asesu ganiatáu i ddysgwyr ddangos y Sgiliau Cyfannol mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i bob cydran, ac sy'n osgoi ailadrodd a dyblygu diangen yn y dystiolaeth a gynhrychir.
- 7.10. Rhaid i'r asesiad roi cyfleoedd i ddysgwyr roi'r Sgiliau Cyfannol ar waith yn annibynnol ac yn gydweithredol. Rhaid i'r fanyleb nodi pa elfennau sy'n annibynnol ac yn gydweithredol.
- 7.11. Rhaid asesu pob cydran o Fagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru trwy asesiad di-arholiad.
- 7.12. Rhaid i'r corff dyfarnu ddangos bod prosesau ar waith i sicrhau sicrwydd ansawdd effeithiol o benderfyniadau asesu cyn, ac mewn da bryd, i ddyfarnu'r cymhwyster ddigwydd. Bydd angen alinio'r amseriad hefyd â gofynion unrhyw ddogfennau rheoleiddio ychwanegol sy'n ymwneud â chyhoeddi canlyniadau, darparu data, ac apeliadau ac adolygiadau.

GR8 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio dosbarthiad pwysoliad pob un o'r Sgiliau Cyfannol ar lefel cydran.

GR9 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio'r rhesymau dros briodoli elfennau o'r Sgiliau Cyfannol i asesu pob cydran, gan gynnwys ystyried sut yr aethpwyd ati i osgoi dyblygu asesu diangen.

GR10 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio'r rhesymau dros yr oriau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd cyfranogiad Cymunedol.

GR11 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio sut mae'r meini prawf asesu ar gyfer y Prosiect Unigol yn rhoi digon o eglurder ar gyfer asesu'r gwahanol fathau o dystiolaeth y gellir ei chyflwyno (prosiect ysgrifenedig neu arteffact).

GR12 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio sut mae'r cymhwyster yn 'addas i'r pwrpas', gan gynnwys sut mae'n cydbwysu ystyriaethau dilysrwydd, dibynadwyedd, cymaroldeb, hydrinedd a lleihau rhagfarn. Rhaid i'r esboniad gynnwys sut mae'r trefniadau asesu:

(a) yn gyffredinol, yn hylaw ar gyfer canolfannau a dysgwyr

(b) yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac yn hybu a chynnal diddordeb dysgwyr yn y maes pwnc

(c) yn sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd deilliannau asesu, ar lefel y ganolfan ac yn genedlaethol a thros amser, er enghraifft drwy nodi a disgrifio:

- y rheolaethau a ddefnyddir ar gyfer ymgeiswyr a chanolfannau yn ystod asesiad di-arholiad, gan sicrhau bod cydbwysedd rhwng profiad dysgu difyr a dibynadwyedd asesu;
- y ffordd y caiff hyblygrwydd a dewis i ddysgwyr eu cydbwyso yn erbyn cymaroldeb deilliannau;
- y ffurfiau o dystiolaeth y gall ymgeiswyr eu defnyddio wrth gwblhau yr asesiadau di-arholiad hyn;
- y ffordd y caiff meini prawf marcio eu gosod i'w defnyddio gan aseswyr a chymedrolwyr, gan osgoi dulliau gor-sympl neu fformiwläig o asesu tystiolaeth

(d) yn ffurf ddilys ar asesu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu hasesu a'u bod yn sicrhau dilysrwydd tystiolaeth asesu dysgwyr.

8. Graddio

- 8.1. Rhaid graddio Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (lefel 3) A* - E ar lefel cymhwyster.
- 8.2. Ni fydd yn ofynnol i ddysgwyr basio pob cydran i ennill gradd cymhwyster.
- 8.3. Rhaid caniatáu i ddysgwyr ailsefyll unwaith fesur cydran. Bydd y marc uchaf a enillir am y gydran honno yn cael ei agregu tuag at radd y cymhwyster.
- 8.4. Mae'r gofynion ar gyfer y system raddio i'w gweld yn nhabl 8:

Tabl 8: System raddio'r cymhwyster

Mae Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch wedi'i graddio'n gyffredinol gyda'r un raddfa raddau â chymhwyster Safon Uwch (e.e. A* - U).							
Gradd cymhwyster	A*	A	B	C	D	E	U
Caniateir ailsefyll unwaith fesul cydran. Bydd y marc uchaf a enillir am y gydran honno yn cyfrif tuag at radd y cymhwyster. <i>Nid oes rhaid i ddysgwyr basio pob cydran i gael gradd gyffredinol</i>							

GR13 – Gofyniad y Rhesymeg: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio'r rhesymau dros ddewis strwythur graddio ar lefel cydran, gan gynnwys ystyried sut yr aethpwyd ati i osgoi unrhyw gymhlethdod diangen.

GR14 – Gofyniad y Rhesymeg: fel rhan o'r cyflwyniad, os bydd tystiolaeth yn cael ei chynhyrchu gan Ddysgwr mewn asesiad ar gyfer y cymhwyster ac wedi'i marcio gan Ganolfan, rhaid i'r corff dyfarnu esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'w Strategaeth Craffu ar Asesu'r Ganolfan (CASS), gan ddangos sut mae'n cefnogi'r strategaeth asesu a gyflwynwyd ac yn cydymffurfio ag Amod Cydnabod Safonol H2 yng nghyd-destun y Cymhwyster hwn. Rhaid iddo hefyd egluro ei ddull o osod lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer y cymhwyster hwn a chynnal safonau yn unol ag Amod Cydnabod Safonol H3.1, yn ogystal â'i ddull o ddyfarnu'r Cymhwyster.

